Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Chwarae Penmorfa Playmates
# Ysgol Penmorfa
# Dawson Drive
# Prestatyn
# LL19 8SY

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2019**

**gan**

**AGC (Arolygiaeth Gofal Cymru)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Chwarae Penmorfa Playmates

| | |
|---|---|
| Enw’r lleoliad | Cylch Chwarae Penmorfa |
| Categori’r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Sue Baker |
| Unigolyn cyfrifol (os yw’n berthnasol) | Ddim yn berthnasol |
| Person â gofal | Lisa Oldroyd |
| Nifer y lleoedd | 30 |
| Amrediad oedran y plant | 2 i 4 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at ddau dymor | 15 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at bum tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 9am tan 3pm, dydd Llun i ddydd Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau’n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw’r lleoliad yn gweithredu’r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Gweithredol y Gymraeg | Nac oes |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 01/11/2017 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 01/03/2012 |
| Dyddiadau’r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 13/03/2019 |
| Gwybodaeth ychwanegol<br><br>Mae pob un o’r plant yn siarad Saesneg fel eu mamiaith.  Mae’r lleoliad wedi nodi bod gan ychydig o blant anghenion dysgu ychwanegol. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(yn berthnasol yn unig i blant tair a phedair blwydd oed nad ydynt yn derbyn addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(yn berthnasol yn unig i blant tair a phedair blwydd oed nad ydynt yn derbyn addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol** |

## Diffyg cydymffurfio

Rydym wedi hysbysu'r person cofrestredig fod angen gwelliannau mewn perthynas â gwiriadau addasrwydd, gan nad yw'r lleoliad wedi cael geirdaon ar gyfer pob un o'r gwirfoddolwyr (Rheoliad 28), darparu goruchwyliaeth briodol ar gyfer ymarferwyr (Rheoliad 29) a sicrhau bod yr holl agweddau ar y ddarpariaeth awyr agored yn hyrwyddo lles plant (Rheoliad 20) er mwyn cyflawni'r gofynion cyfreithiol yn llawn.

Ni chyflwynwyd hysbysiad y tro hwn, gan nad oedd yna unrhyw effaith uniongyrchol nac arwyddocaol ar blant sy'n defnyddio'r lleoliad. Rydym yn disgwyl i'r unigolyn cyfrifol gymryd camau i gywiro hyn, ac eir ar drywydd y mater yn yr arolygiad nesaf.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod plant yn datblygu a chymhwyso eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithiol ac yn gynyddol

A2 Sicrhau bod ffurflenni damweiniau a digwyddiadau pob un o'r plant yn cael eu llofnodi gan rieni yn gyson

A3 Gwella cynllunio i sicrhau bod yr holl blant, gan gynnwys plant mwy abl, yn cael eu herio'n briodol

A4 Sicrhau bod asesiadau risg yn bodloni holl anghenion y lleoliad, a'u bod yn cael eu hadolygu a'u dyddio'n rheolaidd

A5 Gwella gweithdrefnau monitro i sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn cael eu dilyn yn effeithiol ac yn gyson

A6 Rhaid i'r person cofrestredig fynd i'r afael â phob achos o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod yr arolygiad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn ac AGC yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn gwneud dewisiadau hyderus ynglŷn â ble mae arnynt eisiau chwarae, ac maent yn dewis adnoddau'n annibynnol. Er enghraifft, maent yn disgrifio'r modd y maent yn mwynhau chwarae â'r tywod ac yn llawn cyffro wrth lenwi eu hoff fwced cragen borffor. Mae llawer o blant yn cyfrannu'n dda yn ystod gweithgareddau grŵp. Maent yn gofyn ac yn ateb cwestiynau yn effeithiol. Er enghraifft, pan fyddant yn trafod tedi-bêrs, maent yn esbonio bod eu tedi "yn y gwely i fyny'r grisiau" ("in bed upstairs"). Mae mwyafrif ohonynt yn cyfathrebu'n effeithiol ac yn hyderus fod ymarferwyr yn gwrando ar eu ceisiadau.

Mae bron pob un o'r plant yn ymgynefino'n dda ac yn hapus i ymwahanu â'u prif ofalwyr ar ôl iddynt gyrraedd. Maent yn ffurfio ymlyniadau cadarnhaol gydag ymarferwyr sy'n gwneud iddynt deimlo'n ddiogel ac wedi ymlacio. Er enghraifft, mae llawer o blant yn dewis chwarae ochr yn ochr ag ymarferwyr ac yn sgwrsio'n hapus â nhw. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gyfarwydd â threfn y lleoliad, ac mae hyn yn eu helpu i deimlo'n ddiogel.

Mae bron pob un o'r plant yn dechrau chwarae ochr yn ochr â phlant eraill neu gyda nhw ar gam sy'n ddatblygiadol briodol. Maent yn dysgu cydweithredu a rhannu â'u ffrindiau yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn cymryd eu tro i ddefnyddio'r offer rheoli pan fyddant yn chwarae â cheir batri. Mae llawer ohonynt yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn effeithiol; er enghraifft, maent yn dweud 'os gwelwch yn dda' (please) a 'diolch' (thank you) trwy gydol y sesiwn. Maent yn mwynhau tacluso ac yn parchu teganau ac offer yn dda. Er enghraifft, maent yn helpu eu ffrind i frwsio'r tywod sydd wedi cwympo ar y llawr ac yn arllwys y cynnwys i mewn i'r bin. Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda yn unol â'u hoedran a'u cyfnod datblygu.

Mae bron pob un o'r plant wedi eu cymell yn dda ac yn dangos diddordeb yn eu chwarae. Er enghraifft, maent yn ymuno â gweithgaredd dawnsio yn frwdfrydig, ac yn mwynhau symud eu cyrff mewn gwahanol ffyrdd a neidio i rythm y goleuadau disgo. Mae mwyafrif o blant yn datblygu eu medrau meddwl yn llwyddiannus ac yn dyfalbarhau'n dda pan fyddant yn wynebu her. Er enghraifft, pan fydd llwyfan y maent wedi'i adeiladu o flociau pren yn cwympo, maent yn ystyried sut i'w wneud yn gryfach a'i ailadeiladu gyda chymorth gan ymarferwr.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu ystod o fedrau yn effeithiol, yn unol â'u cyfnod datblygu. Er enghraifft, maent yn gwisgo eu hesgidiau glaw i baratoi ar gyfer chwarae yn yr awyr agored, ac yn gosod eu platiau yn y bowlen golchi llestri ar ôl cinio yn annibynnol. Mae llawer ohonynt yn mynd ar drywydd eu diddordebau eu hunain yn dda. Er enghraifft, maent yn edrych ar fapiau yn ofalus ac yn tynnu llun o'u map eu hunain i'w helpu i ddod o hyd i'r 'trysor' gyda chymorth.

**Dysgu (yn berthnasol yn unig i blant tair neu bedair blwydd oed nad ydynt yn derbyn addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dechrau yn y lleoliad gyda medrau a gwybodaeth sy'n ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad, gwnânt gynnydd da, yn enwedig o ran datblygu eu medrau personol a chymdeithasol. Er enghraifft, maent yn rhoi matiau amser grŵp o'r neilltu heb gael anogaeth. Mae llawer o blant yn dechrau cyd-chwarae, er enghraifft pan fyddant yn bwrw drwm gyda'i gilydd neu'n dewis bwyd i ffrind yn y siop chwarae rôl.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwrando'n astud. Maent yn talu sylw da pan fydd plant neu bobl eraill yn siarad, ac yn gadael i bobl eraill siarad heb dorri ar eu traws. Mae llawer o blant yn siarad yn glir, ac mae ychydig ohonynt yn gofyn cwestiynau fel "oes eisiau car arnat ti?" ("do you want a car?"). Mae llawer o blant yn deall ac yn dilyn cyfarwyddiadau'n llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn gwrando'n ofalus ar ymarferwr wrth iddynt fesur cynhwysion pan fyddant yn gwneud toes chwarae.

Yn ystod amser grŵp, mae'r rhan fwyaf o blant yn gwrando'n dda, ac mae mwyafrif ohonynt yn ailadrodd ymadroddion syml o stori gyfarwydd yn frwdfrydig. Maent yn adnabod eu henw, ac mae llawer ohonynt yn dweud sain gyntaf eu henw gydag ychydig iawn o gymorth. Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau creu marciau ag amrywiaeth o offer, ac mae lleiafrif ohonynt yn dechrau datblygu dealltwriaeth o ysgrifennu at ddiben. Er enghraifft, maent yn ceisio ysgrifennu eu henw ar eu gwaith celf.

Mae medrau rhifedd y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n dda o'u mannau cychwyn. Maent yn dweud rhifau yn eu trefn i ddeg yn hyderus ac yn cyfrif yn gywir i o leiaf bump wrth ddarganfod faint o blant sydd yn y feithrinfa. Mae llawer o blant yn defnyddio geirfa fathemategol yn rheolaidd wrth iddynt chwarae. Er enghraifft, maent yn disgrifio eu hunain fel 'mawr' ('big') wrth sefyll ar floc pren, neu'n dweud, "Mae gen i dri, mae gen ti ddau" ("I've got three, you have two") wrth gasglu cartonau llaeth gyda ffrind.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn archwilio eu hamgylchedd yn hyderus, ac mae mwyafrif ohonynt yn datblygu eu medrau meddwl a'u chwilfrydedd yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn sylwi ar beth sy'n digwydd wrth iddynt ollwng ffyn mewn pwll dwfn gyda diddordeb, ac yn rhoi cynnig ar wahanol ddulliau i beintio â mwd trwchus.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau corfforol yn effeithiol. Er enghraifft, mae tua hanner ohonynt yn neidio'n hyderus mewn pyllau mwdlyd ac mae ychydig ohonynt yn dyfeisio gêm redeg syml yn y glaw. Maent yn mwynhau defnyddio amrywiaeth o offer, fel sialc mawr, rholbrennau a phegiau yn effeithiol.

Mae llawer o blant yn defnyddio ac yn elwa ar offer TGCh yn briodol. Er enghraifft, maent yn gweithredu ceir syml sy'n cael eu gweithredu gan fatri a thil wedi'i ailgylchu yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw plant yn gwneud cynnydd digonol o ran datblygu eu medrau TGCh dros gyfnod.

Yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad, mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau Cymraeg yn dda o gymharu â'u mannau cychwyn. Maent yn ymateb i amrywiaeth o eiriau ac ymadroddion Cymraeg yn gadarnhaol ac yn ymuno i ganu caneuon Cymraeg syml gydag anogaeth gan ymarferwyr. Mae mwyafrif o blant yn cyfrif i bump yn Gymraeg ac mae ychydig iawn ohonynt yn dweud rhifau yn eu trefn i ddeg yn annibynnol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â chadw plant yn ddiogel ac iach. Mae trefniadau'r lleoliad i ddiogelu plant yn bodloni'r gofynion ar y cyfan, ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf sy'n addas ar gyfer amrediadau oedran y plant sy'n derbyn gofal. Mae ymarferwyr yn cofnodi damweiniau a digwyddiadau ac yn hysbysu rhieni'n briodol. Fodd bynnag, nid ydynt yn sicrhau bod cofnodion yn cael eu llofnodi gan y lleoliad a'r rhiant yn gyson. Mae arweinwyr yn sicrhau bod gwiriadau diogelwch rhag tân a driliau tân yn cael eu cynnal a'u cofnodi'n briodol.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ac yn darparu dewisiadau iach amser byrbryd yn effeithiol. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn trefnu gweithgaredd brwsio dannedd y mae plant yn ei fwynhau, ac yn dechrau datblygu eu dealltwriaeth o hylendid y geg a bwyta'n iach yn briodol. Mae ymarferwyr yn annog chwarae yn yr awyr agored yn frwdfrydig. Mae hyn yn datblygu medrau corfforol plant yn effeithiol tra'n darparu cyfleoedd da iddynt fod yn weithgar yn yr awyr iach.

Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn datblygu medrau cymdeithasol plant yn effeithiol, ac yn hyrwyddo ymddygiad da yn fedrus. Er enghraifft, maent yn helpu plant i ddyfalbarhau i dynnu croen eu banana a rhoi sbwriel yn y bin ailgylchu cywir trwy ganmol eu hymdrechion. Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn atgoffa'r plant yn garedig i rannu a chymryd eu tro, ac o ganlyniad, mae ymddygiad plant yn dda.

Mae ymarferwyr yn darparu gweithgareddau gwerth chweil yn seiliedig ar ddiddordebau plant ac awgrymiadau sy'n hyrwyddo eu datblygiad yn effeithiol. Mae llawer o ymarferwyr yn defnyddio cwestiynau'n dda i helpu plant i fod yn ddysgwyr gweithgar a chwilfrydig. Er enghraifft, maent yn gofyn i blant ystyried pa faint rholbren sydd orau i rolio'r toes chwarae. Mae ymarferwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth plant yn gynyddol. Er enghraifft, maent yn ymestyn diddordeb plant mewn meddygon yn bwrpasol trwy fynd ymlaen i siarad am rôl milfeddyg mewn gofalu am wahanol anifeiliaid. Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn cynorthwyo plant i ymestyn eu meddwl a'u dysgu'n dda.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i blant glywed a defnyddio'r Gymraeg. Er enghraifft, maent yn annog plant i ganu caneuon, enwi lliwiau a chyfrif yn Gymraeg. Maent yn datblygu dealltwriaeth plant o'u treftadaeth Gymreig yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn darparu cyfleoedd i blant gymryd rhan mewn traddodiadau Cymreig, fel Y Fari Lwyd.

Mae ymarferwyr yn ymateb i anghenion unigol plant yn llwyddiannus mewn modd amserol. Er enghraifft, pan fydd plentyn yn dechrau mynd yn aflonydd, mae ymarferwyr yn tynnu ei sylw neu'n cofleidio'r plentyn, sy'n ei dawelu'n llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn cynorthwyo plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol.

**Addysgu ac asesu (yn berthnasol yn unig i blant tair neu bedair blwydd oed nad ydynt yn derbyn addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r lleoliad yn darparu ystod effeithiol o brofiadau dysgu dan do ac yn yr awyr agored sy'n ennyn diddordeb bron pob un o'r plant yn dda. Mae bron pob un o'r

ymarferwyr yn cynorthwyo plant i ddatblygu eu medrau personol a chymdeithasol yn llwyddiannus.  Er enghraifft, maent yn annog plant i gymryd eu tro pan fyddant yn gwneud toes chwarae, a thacluso ar ddiwedd y sesiwn.

Mae'r ddarpariaeth i gefnogi medrau llythrennedd a rhifedd plant yn effeithiol.  Mae ymarferwyr yn defnyddio llyfrau ar draws yr amgylchedd yn greadigol.  Er enghraifft, yn yr ardal toes chwarae, defnyddiant lyfr gwybodaeth i annog plant i sylwi ar, ac ail-greu, siâp neidr a'r patrymau tonnog y mae'n eu creu yn y tywod.  Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd diddorol i blant gymryd rhan mewn creu marciau, fel defnyddio ffyn i dynnu llun â mwd.  Maent yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i blant ddatblygu dealltwriaeth o ysgrifennu at wahanol ddibenion.  Er enghraifft, maent yn darparu pensiliau a phapur yn yr ardal adeiladu a 'derbynebau' yn y siop chwarae rôl.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd defnyddiol i blant ddatblygu eu medrau corfforol, gan gynnwys datblygu eu gafael wrth ddefnyddio pennau ffelt, gweill bwyta a phosau.  Ceir cyfleoedd gwerth chweil i blant ddatblygu medrau corfforol ar raddfa fawr yn yr ardal awyr agored.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd i bedalu treisiclau a balansio ar deiars mawr.

Mae ystod o brofiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad moesol, ysbrydol a diwylliannol plant yn dda.  Er enghraifft, mae ymarferwyr yn llwyddo i feithrin synnwyr o barchedig ofn a rhyfeddod pan fyddant yn eu cynorthwyo i ddefnyddio chwyddwydr i sylwi ar ronynnau mân o dywod ar gragen.  Mae ymarferwyr yn rhoi cyfleoedd effeithiol i blant ddysgu am bethau byw, a gofalu amdanynt.  Maent yn annog plant i blannu bylbiau cennin Pedr a sylwi arnynt wrth iddynt dyfu a dechrau blodeuo.

Mae'r lleoliad yn cefnogi datblygiad plant o ran y Gymraeg yn effeithiol.  Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn modelu'r Gymraeg trwy ganu caneuon a defnyddio geiriau ac ymadroddion syml trwy gydol y sesiwn yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth dda o arfer y cyfnod sylfaen.  Maent yn esbonio pethau'n glir, yn modelu gweithgareddau ac yn holi plant yn effeithiol.  Maent yn cyfuno tasgau â ffocws gyda chwarae rhydd plant yn llwyddiannus.  O ganlyniad, mae plant yn mwynhau cyfnodau hir pan fyddant yn arwain eu dysgu eu hunain yn hyderus.  Mae rhyngweithiadau ymarferwyr â phlant yn sensitif, parchus a gofalgar.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau asesu priodol.  Mae ymarferwyr yn arsylwi plant ac yn nodi'r hyn y gallant ei wneud eisoes yn ystod yr wythnosau cyntaf yn y lleoliad yn briodol.  Maent yn gwneud arsylwadau parhaus defnyddiol o blant, ac yn adolygu eu cynnydd yn effeithiol yn ystod cyfarfodydd rheolaidd.  Mae cynllunio wythnosol wedi'i seilio ar ddewisiadau a cheisiadau plant, sy'n eu cynorthwyo i gynnal diddordeb mewn gweithgareddau ac adnoddau yn dda.  Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth bob amser yn herio ychydig iawn o blant mwy abl yn ddigon da.

**Yr Amgylchedd:  Digonol**

Mae arweinwyr yn sicrhau bod y lleoliad yn briodol ddiogel a saff.  Ceir system briodol i reoli mynediad at y safle, ac mae hyn yn cynnwys cofnod addas o ymwelwyr.  Mae arweinwyr yn cynnal gwiriadau diogelwch rheolaidd ar yr adeilad.  Ceir ystod o asesiadau risg priodol, gan gynnwys asesiad risg addas yn ymwneud â

diogeledd yr ardal awyr agored. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn sicrhau bod yr holl asesiadau risg yn ymwneud yn benodol â'r lleoliad. Nid ydynt yn adolygu asesiadau risg yn gyson i sicrhau eu bod yn gyfoes ac yn diwallu holl anghenion y lleoliad.

Mae'r unigolyn sydd â gofal yn gwneud yn siŵr fod yr holl ymarferwyr yn dilyn arferion hylendid yn briodol, fel golchi dwylo a glanhau byrddau cyn prydau bwyd. Fodd bynnag, mae arferion glanhau ar gyfer teganau ac offer yn anghyson, ac nid ydynt yn cael eu hymgorffori'n ddigon da mewn arferion.

Mae arweinwyr yn trefnu'r amgylchedd yn effeithiol i gefnogi annibyniaeth plant. Er enghraifft, mae storio dan do ar lefel isel, sy'n galluogi plant i nodi a dewis teganau ac adnoddau'n hawdd. Mae dodrefn, toiledau a chyfleusterau golchi dwylo i gyd yn briodol ar gyfer oedran. Mae hyn yn galluogi plant i'w defnyddio heb lawer o gymorth ac yn hyrwyddo eu cysur yn dda. Mae ymarferwyr yn darparu lle i blant hongian eu cotiau a storio eu heitemau personol, ac mae hyn yn rhoi ymdeimlad gwerth chweil o berthyn iddynt.

At ei gilydd, mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i blant ddatblygu eu medrau ar draws y cwricwlwm yn yr ardal awyr agored. Fodd bynnag, nid yw'r sied chwarae yn yr awyr agored yn darparu lle croesawgar priodol ar gyfer plant.

Ar draws y lleoliad, mae ymarferwyr yn darparu ystod briodol o adnoddau sy'n cefnogi dysgu plant yn dda. Mae'r rhain yn cynnwys adnoddau diddorol sy'n hyrwyddo chwilfrydedd plant, fel eitemau'r cartref, deunyddiau naturiol a chynhyrchion wedi'u hailgylchu. Er enghraifft, mae plant yn defnyddio cartonau llaeth wedi'u hailgylchu ac yn dychmygu arllwys y cynnwys mewn sosban, gan ddweud wrth ymarferwr eu bod yn gwneud 'cawl llaeth' ('milk soup').

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo amrywiaeth ac ystod o ddiwylliannau yn briodol gyda detholiad o lyfrau, pypedau, offerynnau a cherddoriaeth i blant ddewis o'u plith.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol**

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir i'r lleoliad ddiwallu anghenion unigol pob un o'r plant, a'u cynorthwyo i gyrraedd eu potensial. Maent yn gweithio'n effeithiol gydag ymarferwyr i ddarparu amgylchedd gofalgar a difyr ar gyfer pob un o'r plant.

Ceir ymrwymiad cryf i waith tîm, ac mae bron pob un o'r ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae arweinwyr yn cyfleu eu disgwyliadau'n glir ac yn mynd ati i gynorthwyo pob un o'r ymarferwyr i wneud eu gorau. Er enghraifft, maent yn arwain cyfarfodydd staff rheolaidd i drafod diddordebau'r plant a chynllunio darpariaeth ar gyfer yr wythnos ganlynol.

Ceir ystod o bolisïau a gweithdrefnau addas i gefnogi trefniadaeth y lleoliad, y mae arweinwyr yn eu rhannu â staff newydd yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn monitro pa mor effeithiol y mae ymarferwyr yn dilyn polisïau a gweithdrefnau yn ddigon cyson. O ganlyniad, nid ydynt yn rhoi'r holl bolisïau a gweithdrefnau ar waith yn llawn, fel sicrhau eu bod yn adolygu asesiadau risg yn rheolaidd. Nid yw'r lleoliad yn cydymffurfio'n llawn â'r holl reoliadau. Er enghraifft, nid yw arweinwyr yn sicrhau eu bod wedi cael geirdaon ar gyfer yr holl wirfoddolwyr sy'n gweithio yn y lleoliad.

At ei gilydd, mae trefniadau ar gyfer nodi cryfderau a meysydd i’w gwella yn addas, ac mae’r holl ymarferwyr wedi ymrwymo i wella ansawdd. Gwna’r lleoliad ddefnydd buddiol o wybodaeth o ystod o ffynonellau i lywio’r broses hunanwerthuso. Mae llawer o ymarferwyr yn gwybod beth mae’r lleoliad yn ei wneud yn dda a meysydd y mae angen iddynt eu datblygu. Er enghraifft, maent yn esbonio’r modd y mae ymagwedd ddiwygiedig at gynllunio wedi galluogi plant i ddilyn eu diddordebau eu hunain a chael eu cynnwys yn fwy yn eu chwarae.

Mae’r rhan fwyaf o ymarferwyr yn awyddus i fanteisio ar gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus ac yn ymdrechu i wella eu perfformiad. Mae tua hanner yr ymarferwyr wrthi’n ymestyn eu gwybodaeth ar hyn o bryd, wrth iddynt weithio tuag at gymwysterau pellach. Caiff hyn effaith gadarnhaol, fel gwella dealltwriaeth ymarferwyr o sut i gefnogi medrau cyfathrebu plant.

Mae’r lleoliad yn gwneud defnydd effeithiol o ymarferwyr ac adnoddau i gefnogi lles, chwarae a dysgu plant yn effeithiol. Mae arweinwyr yn gwneud yn siŵr fod y lleoliad yn bodloni niferoedd gofynnol yr ymarferwyr sydd â chymwysterau addas. Ceir digon o adnoddau, ac mae ansawdd y rhan fwyaf ohonynt yn dda.

Mae gan y lleoliad drefniadau priodol ar gyfer rheoli perfformiad staff. Caiff y rhan fwyaf o ymarferwyr gyfleoedd defnyddiol i drafod a myfyrio ar ansawdd eu gwaith yn ystod arfarniadau blynyddol. Fodd bynnag, nid yw arfarniadau’n cefnogi gwelliant parhaus yn ddigon da trwy nodi targedau i unigolion weithio tuag atynt. Nid yw’r lleoliad wedi sefydlu gweithdrefnau goruchwylio effeithiol, ac ni chaiff ymarferwyr gyfleoedd addas i drafod eu gwaith yn rheolaidd gydag arweinwyr.

Mae gan y lleoliad ystod werth chweil o bartneriaethau sy’n gwella ansawdd y ddarpariaeth a’r deilliannau ar gyfer plant. Mae ymarferwyr yn hysbysu rhieni a gofalwyr am yr hyn y mae eu plant yn ei ddysgu, a pha mor dda y maent yn dod yn eu blaenau, yn effeithiol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac ar wefannau AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen gwelliant sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 17/05/2019